PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 AWST 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Murphy, Dilwar Ali, Goddard, Jacobsen, Lancaster, Robson, Taylor, Williams a/ac Wood |

6 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Davies.

7 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

8 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

9 : TRWYDDEDU CERBYDAU LLOGI PREIFAT AR GYFER DIGWYDDIADAU ARBENNIG

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cais wedi'i dderbyn gan Mr Daniel Morgan i gymeradwyo 1965 Volkswagen Beetle fel cerbyd llogi preifat i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau arbennig. Ni cyflawnodd y cerbyd amodau Trwydded Cerbyd Llogi Preifat y Cyngor.

Mae Mr Morgan yn defnyddio'r cerbyd yn bennaf ar gyfer priodasau, sydd wedi'u heithrio o ofynion trwyddedu Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Ni all ddarparu ei gerbyd ar gyfer digwyddiadau eraill, megis dawnsiau ysgol, gan nad yw'r cerbyd wedi'i drwyddedu. Mae'r cerbyd mewn cyflwr eithriadol ac wedi'i eithrio o ddarparu MOT. Fodd bynnag, mae wedi cael prawf MOT heb nodiadau ymgynghori.

Bydd hefyd angen i Mr Morgan gael trwydded gweithredwr cerbyd llogi preifat a thrwydded gyrrwr cerbyd llogi preifat/hacni er mwyn darparu ar gyfer ceisiadau.

Pe bai'r pwyllgor am gymeradwyo'r cais hwn bydd angen set arbennig o amodau yn lle'r amodau arbennig er mwyn sicrhau bod cerbydau wedi'u trwyddedu ar gyfer digwyddiadau arbennig yn ddiogel yn strwythurol ac 'n fecanyddol. Atodwyd set drafft o amodau at yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried gwerth y cais.

PENDERFYNWYD:

(1) bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Amodau Cerbyd Llogi Preifat Digwyddiad Arbennig fel y nodir yn Atodiad B;

(2)

cymeradwyo'r 1965 Volkswagen Beetle i'w ddefnyddio fel cerbyd llogi preifat digwyddiad arbennig.

## 10 : SYSTEMAU CCTV AR GYFER CERBYDAU TRWYDDEDIG

Yn y cyfarfod ar 3 Gorffennaf, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad mewn perthynas ar a ddylid dileu'r amod trwyddedu cerbyd sy'n cyfyngu ar y defnydd o wydr tywyll. Cytunodd y Pwyllgor i alluogi'r defnydd o wydr tywyll mewn cerbydau wedi'u trwyddedu, ar yr amod bod system TCC yn y cerbyd hefyd.

Ni phenderfynwyd ar dyddiad gweithredu gan y Pwyllgor, ond o ganlyniad i gymhlethdodau o ran sicrhau bod unrhyw system TCC gymeradwy'r Cyngor yn cydymffurfio âr holl ofynion cyfreithiol, megis Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) 2018, dywedodd y swyddogion fod dyddiad gweithredu wedi'i oedi tan y caiff meini prawf TCC eu cymeradwyo.

Mae'r amod cyfredol sy'n berthnasol i'r defnydd gwirfoddol o TCC mewn cerbydau yn dweud:

> *'Caniateir mathau o offer TCC a gymeradwywyd eisoes gan yr Awdurdod, os caiff ei osod yn unol â chyfarwyddiadau, yn amodol ar y canlynol:*
>
> *a) mae arwydd sy'n nodi bod offer ffilmio ar waith yn cael ei arddangos yn amlwg yn y cerbyd, a;*
>
> *b) rhoddir yr holl ddelweddau a lawrlwythir o'r camera i'r Heddlu, ar gais, am hyd at 28 o ddiwrnodau ar ôl lawrlwytho'r delweddau.'*

Yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor gais am y ddefnydd o'r system TCC Camera Dwbl MTC 33. Penderfynodd y Pwyllgor hefyd alluogi swyddogion i gymeradwyo unrhyw geisiadau yn y dyfodol am systemau TCC.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod swyddogion wrthi'n adolygu Polisi Trwyddedu Tacsis y Cyngor. Credodd y swyddogion nad yw'r amod uchod yn ddigon manwl i gynorthwyo swyddogion gyda gwerthuso systemau TCC addas a hefyd, yn ogystal bod newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau technolegol gwneud yr angen am feini prawf manyleb TCC cymeradwy yn angenrheidiol i sicrhau bod y broses ymgeisio'n gadarn ac yn gyson.

PENDERFYNWYD – peidio â gweithredu'r amod trwyddedu cerbydau ym mharagraff 1.1 yr adroddiad nes y cymeradwyir meini prawf manyleb TCC gan y Pwyllgor.

## 11 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am